**EITEM AR YR AGENDA: 7**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
# PANEL GWEITHREDOL

**13 Chwefror 2017**

## AMCANION GWELLA A LLESIANT 2017-18

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi crynodeb o'r ymateb i ymgynghoriad yr Awdurdod ar ei Amcanion Gwella a Llesiant drafft 2017-18; a chynnig sail ar gyfer Cynllun Gwella a Llesiant drafft terfynol 2017-18 i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod llawn yn ei gyfarfod nesaf ar 20 Mawrth 2017.

## Cyflwyniad

2 Yn Chwefror 2016, cafodd Gweithgor Cynllun Gwella'r Awdurdod amserlen ar gyfer cyhoeddi ei Gynllun cyfunol cyntaf ynglŷn â Gwella a Llesiant 2017-18 (y Cynllun) i gydymffurfio â'r cyfarwyddyd a ddaeth.

3 Roedd yr amserlen yn cynnwys cyfnod o ymgynghori â'r cyhoedd ynglŷn ag amcanion drafft a fyddai'n sail i'r Cynllun.

4 Dylai'r ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw nawr fod yn goleuo argymhelliad y Panel Gweithredol ynglŷn â'r hyn y bydd y Cynllun yn ei gynnwys, a hynny er mwyn cael cymeradwyaeth yr Awdurdod llawn yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2017.

5 Yn unol â'r cyfarwyddyd statudol, rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi ei gynllun gwella ar gyfer 2017-18 cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol ar ôl diwedd Rhagfyr 2016, a'i Gynllun Llesiant cyntaf cyn diwedd Mawrth 2017. Mae'r cyngor a ddaeth yn ddiweddar yn ei gwneud yn glir y gellir i bob pwrpas drin amcanion gwella a llesiant fel petaent yn golygu'r un peth.

## Gwybodaeth

6 Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd Gweithgor y Cynllun Gwella, mae'r Awdurdod wedi nodi pedwar amcan gwella a llesiant ar gyfer 2017/18: Mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- parhau i gadw pobl yn ddiogel rhag tân yn eu cartrefi;
- cael dull newydd o ymdrin â chostau'r Awdurdod;
- amddiffyn holl gymunedau Gogledd Cymru drwy gynllunio criwiau diffodd tân yn well;
- ystyried sut gall yr Awdurdod ddarparu mwy o wasanaethau, a gwasanaethau gwahanol, i gymunedau Gogledd Cymru.

7 Yna, bu'r Awdurdod yn ymgynghori â'r cyhoedd ac amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion ynglŷn â'r pedwar amcan. Yn Atodiad 1, ceir manylion y dulliau ymgynghori a dadansoddiad o'r ymatebion a ddaeth i law.

8 Cafodd y rhan fwyaf o'r ymatebion eu gwneud drwy holiadur ar-lein, gyda 164 o ymatebwyd yn dewis ychwanegu sylwadau neges destun yn rhad ac am ddim. Fe wnaeth dau ddeg saith o sefydliadau ac unigolion gyflwyno ymatebion ysgrifenedig drwy e-bost neu'r post. Fe wnaeth nifer o ymatebion ysgrifenedig fynegi pryderon a oedd yr un fath neu'n debyg, a llawer ohonynt yn adleisio trafodaethau'r aelodau eu hunain yng nghyfarfod yr awdurdod tân ym mis Mehefin diwethaf. Rhoddir ystyriaeth yn Atodiad 2 i'r prif themâu sy'n codi o'r ymatebion ysgrifenedig hynny.

## Argymhelliad

9 Gofynnir i'r aelodau gymeradwyo llunio Cynllun Gwella a Llesiant drafft ar gyfer 2017-18, ar sail y pedwar amcan gwella a ddangosir isod, i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2017 a'i gyhoeddi cyn 1 Ebrill 2017:

(i) cynorthwyo i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel drwy atal marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi;

(ii) mabwysiadu strategaeth ariannol 3 blynedd sy'n cyfuno defnyddio cronfeydd wrth gefn, cynyddu'r cyfraniadau ariannol a lleihau gwasanaethau;

(iii) ail-falansio adnoddau'r Awdurdod i gyfateb i'r risg drwy weithredu model o sicrhau adnoddau sy'n sicrhau bod o leiaf 20 o griwiau tân wedi'i lleoli'n strategol ar gael yng Ngogledd Cymru ar adegau o risg cymharol is, ac o leiaf 38 ar adegau o risg cymharol uwch;

(iv) ystyried cyfleoedd i amrywio rôl diffoddwyr tân a chynnig gwasanaethau ychwanegol i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.